Pecyn Gwybodaeth

**Swydd Pennaeth Ysgol Y Llys**

Annwyl Ymgeisydd,

Ar ran Bwrdd Llywodraethol Ysgol Y Llys hoffwn ddiolch ichi am eich diddordeb yn swydd Pennaeth yr ysgol.

Fel y gwelwch o'r pecyn gwybodaeth, mae'r ysgol hon yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd dros sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg o'r safon uchaf i'r holl ddysgwyr.

Rydym fel Bwrdd Llywodraethol wedi ymrwymo i gefnogi gwaith y Pennaeth a'r staff mewn modd gadarnhaol, gan herio pan fo angen, er mwyn sicrhau bod yr addysg a geir yn yr ysgol yn un rhagorol. Mae'r ysgol wedi datblygu systemau a strwythurau sy'n arwain y sector.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn parhau i gryfhau a mireinio pob agwedd o'r addysg a ddarperir yma yn Ysgol Y Llys. Dymunaf pob llwyddiant ichi gyda'ch cais am y swydd.

Yn gywir,

*Mike O'Meara*

**Mike O'Meara**
Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol



# GWELEDIGAETH AC AMCANION YR YSGOL

Mae Ysgol Y Llys yn ysgol boblogaidd wedi ei leoli ar y glannau yn Sir Ddinbych, ardal braf rhwng y môr a bryniau Clwyd. Mae gan yr ysgol 326 o blant brwdfrydig, ac mae'r staff yma yn gwbl ymroddedig i wneud yn siŵr fod pob disgybl yn cyflawni eu llawn botensial. Rydym yn chwilio am Bennaeth brwdfrydig, egnïol ac uchelgeisiol sydd â gweledigaeth glir a medrau arwain rhagorol. Unigolyn fydd â'r gallu i adeiladu ar y cryfderau sy'n bodoli'n barod ac arwain yr ysgol i'r cyfnod nesa yn ei hanes. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn berson cyfeillgar a theg. Rhywun sy'n gallu ysbrydoli ac annog y gorau ym mhob un, gyda sgiliau rheoli a chyfathrebu neilltuol. Mae parch a chyfeillgarwch yn bwysig yn Ysgol Y Llys, ac mae cael Pennaeth sy'n adnabod ei staff a'r disgyblion yn holl bwysig. Edrychwn ymlaen at glywed gan ymgeiswyr a fydd yn parhau i ddatblygu cwricwlwm amrywiol ac eang sy'n addas i anghenion pob un.

Ein nod yma yn Ysgol Y Llys yw sicrhau ein bod yn cyd-weithio fel cymuned dysgu i roi darpariaeth a gofal o'r safon uchaf i bob un o'n disgyblion. Mae'r Cylch Meithrin, 'Ti a Fi' a Clwb Llawen Y Llys hefyd yn rhannu ein safle. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ond Saesneg eu hiaith ydy mwyafrif y newydd ddyfodiaid. Ein nod felly yw gwneud pob ymdrech posibl i ddysgu'r Gymraeg iddynt mor fuan ag sydd yn bosibl er mwyn iddynt fedru ymroddi i mewn i fywyd yr ysgol.
Wrth ymadael ag Ysgol Y Llys a symud ymlaen i'r ysgol uwchradd, rydym yn sicr y bydd pob un o'n disgyblion wedi meithrin sgiliau gydol oes gan gynnwys y gallu i ddyfalbarhau, i fod yn uchelgeisiol, creadigol a mentrus. Byddant wedi datblygu'n ddisgyblion hyderus, sydd yn llwyddo i weithio'n annibynnol a hefyd cydweithio gyda'u cyfoedion o bob tras a chred.

### Dyma ein gweledigaeth ar gyfer ein cwricwlwm yma yn Ysgol y Llys:

- Dathlu a hyrwyddo ein Cymreictod.
- Ysgol hapus a diogel.
- Creu awyrgylch gofalgar a chynhaliol.
- Parchu'r ysgol, y gymuned a'r byd.
- Hyder i fentro drwy profiadau cyfoethog.
- Meithrin dycnwch i wynebu heriau heddiw ac yfory.
- 'Lles Gwerin, Llys Agored'






# LLAIS DISGYBLION

Dyma farn disgyblion Ysgol Y Llys o ran be sy'n bwysig mewn Pennaeth:

"Mae angen Pennaeth sy'n garedig ac yn gefnogol."

"Rhywun sy'n fodlon gwrando ar blant, athrawon a rhieni."

"Mae angen Pennaeth sy'n hyderus wrth siarad yn gyhoeddus ac un sy'n brofiadol."

"Mae angen Pennaeth sy'n credu ac yn angerddol tuag at yr iaith Gymraeg."

"Pennaeth sydd efo synnwyr o ddigrifwch ac yn hoffi chwerthin."

"Rhywun medrwn gael hwyl efo."

"Mae angen Pennaeth sy'n gallu uniaethu efo bobol ifanc."

Harri Hughes, Jessica Reddaway, Amber Dorling, Marnie Grocott, Sam Morris a Sam Murray.









# SWYDD DDISGRIFIAD

Swydd: **Pennaeth Ysgol Y Llys**

Diben y swydd: Darparu gweledigaeth, arweiniad a chyfeiriad ar gyfer ysgol. Gyda chymorth y corff llywodraethu, byddwch yn creu a chynnal amgylchedd dysgu cynhyrchiol sy'n ymgysylltu â'r holl ddisgyblion ac yn foddhaol iddynt ac yn magu gwelliant parhaus yn safon yr addysg.

Yn atebol i'r: **Corff Llywodraethu**

Yn gyfrifol am: Safonau, holl staff ac adnoddau. Disgwylir i'r holl staff ddilyn a gweithio o fewn ffiniau'r fframwaith Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a'r Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth.

## Penaethiaid – Prif Ofynion

Rhaid i ddyletswyddau proffesiynol pennaeth gael eu cyflawni yn unol â'r canlynol ac yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- darpariaethau pob deddfwriaeth gymwys ac unrhyw orchmynion a rheoliadau sy'n weithredol o dan y ddeddfwriaeth gymwys ac yn benodol Deddf Addysg 1996(17) a'r Ddeddf;
- offeryn llywodraethu ysgol y pennaeth;
- unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wneir gan y corff llywodraethu ynghylch materion y mae'n gyfrifol amdanynt, gan yr awdurdod mewn perthynas â materion nad yw'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt neu gan gyflogwyr y pennaeth;
- pan fydd yr ysgol yn ysgol wirfoddol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig, unrhyw ddogfen ymddiriedaeth sy'n gymwys i'r ysgol;
- unrhyw gynllun sy'n cael ei baratoi neu ei gynnal gan yr awdurdod o dan adran 48 o Ddeddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998(18);
- telerau eu penodiad.

## Dirprwyo

Ni cheir dirprwyo cyfrifoldebau proffesiynol pennaeth o dan baragraff 45.9 ac eithrio yn unol â pharagraff 47.2.

Yn ddarostyngedig i baragraff 44.1, gellir dirprwyo cyfrifoldebau pennaeth i ddirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol neu aelod arall o staff mewn modd sy'n gyson â'u hamodau cyflogaeth, gan ystyried natur a graddau eu cyfrifoldebau rheoli, a chan gynnal cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill i bob athro yn unol â pharagraff 50.4.

## Cyfrifoldebau proffesiynol

Efallai y bydd yn ofynnol i bennaeth gyflawni'r dyletswyddau canlynol:
Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan.
Darparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol a, gydag eraill, arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol.
Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol.

## Addysgu

Arwain a rheoli addysgu a dysgu drwy'r ysgol gyfan, gan gynnwys sicrhau, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bod athro'n cael ei neilltuo yn amserlen yr ysgol i bob dosbarth neu grŵp o ddisgyblion:
yn y cyfnod allweddol cyntaf, ac yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol, ar gyfer pynciau craidd a sylfaen ac addysg grefyddol; ac,
yn y cyfnod rhagarweiniol.

## Iechyd, diogelwch a disgyblaeth

Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion a staff.
Sicrhau trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion a staff.

## Rheoli staff ac adnoddau

Arwain, rheoli a datblygu'r staff, gan gynnwys gwerthuso a rheoli perfformiad.
Datblygu trefniadau clir i gynghori'r corff perthnasol ar argymhellion ynglŷn â chyflog i athrawon, gan gynnwys p'un a ddylai athro yn yr ysgol a wnaeth gais i gael ei dalu ar y graddfeydd cyflog uwch gael ei dalu ar y graddfeydd hynny.
Trefnu a lleoli adnoddau yn yr ysgol.
Hyrwyddo cydberthnasau gwaith cydgordiol yn yr ysgol.
Cynnal cydberthnasau â sefydliadau sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o'r staff.
Arwain a rheoli'r staff gan ystyried eu lles a'u disgwyliadau dilys mewn ffordd briodol, gan gynnwys y disgwyliad ynghylch cydbwysedd iach rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill.

## Datblygiad proffesiynol

Hyrwyddo cyfranogiad staff mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, pherfformiad athrawon eraill a staff cymorth.
Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

## Cyfathrebu

Ymgynghori a chyfathrebu â'r corff llywodraethu, staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.

## Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill

Cydlafurio a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol, gan gynnwys cyrff ac asiantaethau allanol perthnasol.

## Hawliau a roddwyd

Yn ogystal â darpariaethau paragraff 50, mae'r hawliau canlynol yn gymwys:

- **Amser penodedig i benaethiaid**
  Mae hawl gan bennaeth i gael cyfnod rhesymol o amser yn ystod sesiynau ysgol, gan ystyried ei gyfrifoldebau addysgu, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli ac arwain.
- **Egwyl ddyddiol**
  Mae gan bennaeth yr hawl i egwyl resymol yn ystod pob diwrnod ysgol, ac mae'n rhaid iddo drefnu bod rhywun addas yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau fel pennaeth yn ystod yr egwyl honno.









## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

## Datganiad Diogelu

Mae Ysgol Y Llys yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Ysgol a'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.

# MANYLION PERSON

## Manylion am yr Unigolyn

Mae'r Manylion am yr Unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Fe'i defnyddir yn y broses o lunio'r rhestr fer a'r cyfweliadau ar gyfer y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, gan mai dim ond wrth fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol y byddwch yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer.

| | |
|---|---|
| **Addysg a Chymwysterau** | Statws Athro Cymwysedig<br>Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth neu barodrwydd i ennill y cymhwyster o fewn 24 mis |
| **Arwain a rheoli** | Gweledigaeth glir i'r ysgol<br>Profiad o fonitro ac arfarnu yn sail i gynllun datblygu ysgol<br>Profiad wrth arwain datblygiad o fewn gofynion y Cwricwlwm i Gymru<br>Dangos y gallu i bennu disgwyliadau uchel a chodi safonau<br>Tystiolaeth glir o'r gallu i hyrwyddo Cymreictod a diwylliant Cymreig<br>Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o reoli cyllid<br>Tystiolaeth o arwain a hyrwyddo defnydd o dechnoleg<br>Mynnu safonau uchel o ran ymddygiad a chyflawniadau'r plant o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth<br>Sicrhau bod lles ein plant a staff yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau |
| **Dysgu ac addysgu** | Amrediad eang o brofiad o fonitro addysgu a dysgu a'u datblygu<br>Gwybodaeth fanwl am weithdrefnau a strategaethau i gefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chefnogi Ymddygiad Ymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg<br>Tystiolaeth o'r gallu i arwain trwy esiampl yn rhagorol ar lawr y dosbarth |
| **Datblygu staff a gweithio gydag eraill** | Medru rheoli, ysbrydoli, annog a grymuso staff trwy rannu cyfrifoldebau<br>Parodrwydd i hyrwyddo, cefnogi a datblygu staff fel unigolion proffesiynol<br>Gallu i feithrin diwylliant agored a theg |
| **Atebolrwydd ac ymreolaeth** | Yn ymroddedig i'r ysgol yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon<br>Gweithio i godi'n uwch eto lwyddiant academaidd a datblygiadau moesol, emosiynol a chymdeithasol pob disgybl<br>Yn gallu gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i dargedau, a symud yr ysgol yn ei blaen |
| **Rhinweddau personol** | Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar bob lefel gyda phob rhanddeiliad yn y Gymraeg a Saesneg<br>Arweinydd ysbrydoledig a chryf, gyda'r gallu i ysbrydoli hyder ac ymddiriedaeth mewn disgyblion, rhieni, cydweithwyr a Llywodraethwyr Sgiliau trefnu a rheoli rhagorol<br>Dyfeisgarwch, dyfalbarhad a chadernid personol<br>Yn rhugl yn yr Iaith Gymraeg |
| **Cryfhau'r gymuned** | Profiad o gydweithio ag ysgolion eraill<br>Gweledigaeth ac ymrwymiad clir i weithredu'n frwd dros ymdrechion yr ysgol i sicrhau, ehangu a chryfhau'r Gymraeg, Cymreictod a'r ethos Cymreig o fewn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach |
| **Lles plant** | Dangos ymroddiad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc<br>Dangos gwir ddiddordeb ym mywydau a datblygiadau plant |

# MANYLION YMGEISIO

## Termau'r swydd a sut i ymgeisio

Os ydych yn Arweinydd sy'n meddu ar y sgiliau allweddol i gynnal ac atgyfnerthu'r seiliau cadarn sydd eisoes wedi eu gosod, edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Os am drafodaeth bellach ynglŷn â'r swydd cysylltwch â Chadeirydd y Corff Llywodraethol Mike O'Meara trwy e-bost: firewisemike@aol.com

**Rhif y swydd:**
**YLYS00093W1RDE**

**Termau'r swydd:**
**Amrediad Cyflog L16 £69,598 - L22 £80,497**

**Dechrau:**
**Ionawr 2025**

**Sut i ymgeisio?**
Manylion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych neu drwy Rhian Davies, Swyddog AD Clwstwr Glan Clwyd ar:
**swyddi@ysgolglanclwyd.cymru** neu **01745 582611**

**Dyddiad cau'r swydd:**
**9fed o Fedi 2024**

**Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal:**
**26 a 27 o Fedi 2024**

Bydd y penodiad yn amodol ar wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.





